David Livingstone 1813–1873

Cenhadwr a fforiwr

Trwy gyfrwng tair taith genhadol David Livingstone i ganolbarth Affrica agorwyd y cyfandir mawr hwn i waith Cristnogol mewn gwledydd fel Uganda a Zaire. Ganwyd ef yn Blantyre, Swydd Lanark, ar lan afon Clyde lle cadwai ei dad siop. Dechreuodd weithio mewn melin pan oedd yn ddeg oed yn clymu edafedd oedd yn torri, am 12 awr y dydd. Er hynny roedd ganddo ddigon o egni i fynd ar ôl y gwaith i ysgol y pentref am ddwy awr. Roedd ei dad yn athro Ysgol Sul yn Eglwys yr Alban. Mynychai David yn gyson gydag ef, ond roedd ganddo fwy o ddiddordeb mewn teithio a gwyddoniaeth nag mewn Cristnogaeth. Ym 1832 darllenodd lyfr gan Thomas Dick, gweinidog yr Efengyl a seryddwr, oedd yn cyfuno gwyddoniaeth a chred Gristnogol. Tua'r un cyfnod penderfynodd ei dad ac yntau yn ei sgil droi at y cynulleidfaolwyr. Erbyn 1836 roedd wedi cynilo digon i fynd i Goleg Anderson yn Glasgow fel myfyriwr meddygol. Y flwyddyn ddilynol daeth i gysylltiad â'r London Missionary Society ac aeth am flwyddyn ragbaratoawl gyda gweinidog yn Chipping Ongar, Essex. Ar ôl clywed T. F. Buxton yn siarad dechreuodd ymddiddori yn yr ymgyrch i ryddhau caethweision. Ym 1840 dychwelodd i Glasgow lle y trwyddedwyd ef gan Gyfadran y Ffisigwyr a'r Llawfeddygon ac fe'i hordeiniwyd ar 20 Tachwedd yng Nghapel Albion, yr Annibynwyr, London Wall.

Hwyliodd o dan faner yr LMS ar 8 Rhagfyr 1840 i Kuruman, De Affrica. Roedd gwrthdaro mawr yn yr ardal wrth i'r Affricaneriaid ehangu eu tiriogaeth. Dysgodd yr iaith leol seTswana ac o fewn dim gallai bregethu yn yr iaith honno. Gweithiodd hefyd fel meddyg, adeiladydd ac argraffydd. Ar 2 Ionawr 1845 priododd Mary Moffat, merch i un o'r cenhadon eraill. Roedd Livingstone yn frwdfrydig iawn i fynd â'r Efengyl i bobl ac ardaloedd newydd a hefyd i ddefnyddio brodorion oedd wedi dod i gredu i genhadu. Gweithiodd gyda llwyth y Kwena yn Kolobeng a daeth pennaeth y llwyth, Sechele, i gredu. Ym 1848 penderfynodd Livingstone fynd ar gyrch i ganolbarth Affrica i chwilio am lyn y clywodd amdano. Canfyddodd lyn Ngami ond yr hyn a wnaeth argraff arno oedd

y rhwydwaith o afonydd, gan gynnwys Botletle, a allai fod yn gyfrwng rhwydd i deithio. Yn dilyn hyn aeth ar nifer o gyrchoedd yn mapio rhai ardaloedd ac yn chwilio am lwybrau masnach posibl. Pan ddychwelodd i Brydain ym 1856 ysgrifennodd hanes ei deithiau yn *Missionary Travels and Researches in South Africa* a bu wrthi'n brysur yn darlithio. (Erbyn 1863 roedd 30,000 copi o'i lyfr wedi eu gwerthu a gwnaeth elw o £8,500. Daeth yn arwr Prydeinig.)

Ym 1857 ymddiswyddodd o'r LMS a derbyniodd grant o £5,000 gan y llywodraeth tuag at ei gyrch i'r Sambesi. Cychwynnodd ar y daith pan hwyliodd ar long y *Pearl* o Benbedw ar 10 Mawrth 1858. Bwriad y cyrch hwn oedd archwilio canolbarth Affrica ac fe barhaodd hyd 1864. Dychwelodd i Brydain am flwyddyn yn siomedig fod y cyrch ar y cyfan yn aflwyddiannus gan eu bod wedi methu gwneud unrhyw wahaniaeth i'r fasnach caethweision. Aeth ar ei daith olaf rhwng 1866 a 1873 i chwilio am darddiad afon Neil. Ar y daith hon cyfarfu â'r Cymro H. M. Stanley a anfonwyd gan y *New York Herald* i chwilio amdano. Fe'i cyfarchwyd â'r geiriau enwog, 'Dr Livingstone, I presume?' Ar y daith hon bu farw ar 30 Ebrill 1873 ym mhentref Chitambo a chladdwyd ei galon a'i ymysgaroedd yn y fan a'r lle. Cludwyd ei gorff yn ôl i Loegr a chladdwyd ei weddillion yn Abaty Westminster.